



# Lluoswch: Rhifedd - Siapiau (Rhan Amser: eDdysgu)

Yn dilyn y wers hon byddwch yn gallu datrys problemau yn ymwneud â siapiau 2D a llinellau paralel, adnabod a defnyddio cynrychioliadau 2D.

Mewn geometreg, gellir diffinio siâp fel ffurf gwrthrych neu ei amlinelliad, ffin allanol neu arwyneb allanol. Mae meddu ar ddealltwriaeth o siapiau 2D a 3D yn helpu'r dysgwr i ddatblygu ei addysg ymhellach a gall agor drysau i wahanol yrfaeodded er enghraifft pensaernïaeth. Pwrpas y wers hon yw rhoi'r gallu i ddysgwyr adnabod a defnyddio cynrychioliadau 2D cyffredin o wrthrychau 3D a datrys problemau yn ymwneud â siapiau 2D a llinellau paralel. Gyda chymorth geiriau allweddol fel siapiau 2D, siapiau 3D, rhwydi, fertigau, ymylon ac wynebau. Mae pynciau gwersi yn cynnwys cynrychioliad 2D a 3D, enwi siapiau 3D, disgrifio siapiau 3D, wynebau, ymylon a fertigau, rhwydi, lluniadau isometrig, ochrau neu linellau cyfochrog, hollti siapiau gan ddefnyddio llinellau paralel a phatrymau brithwaith. Gyda chymorth cwestiynau gwirio gwybodaeth diddorol drwy gydol yr amser ac asesiad ar y diwedd mae dysgwyr yn siwr o ddeall y wers hon.

## Gofynion Mynediad

Dim

## Rhagolygon Gyrfa

Ar ddiwedd y cwrs byddwch yn cael tystysgrif coleg yn cadarnhau eich bod wedi cyflawni'r modiwl

## Modiwlau'r cwrs

Adnabod a defnyddio cynrychioliadau 2D cyffredin o wrthrychau 3D

## Asesiad

Prawf ar-lein



GRŴP COLEGAU **NPTC** GROUP OF COLLEGES

**Datblygu Busnes**  
**Business Development**



**Inspiring Learning,  
Enriching Lives, Delivering Success**

## **DULL ASTUDIO**

PT

## **LLEOLIAD**

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

## **HYD Y CWRS**

1H